
# Gyrfaoedd mewn Optometreg




Cyfeirir atynt yn aml fel optegwyr, ac mae optometryddion yn cael eu hyfforddi i archwilio'r llygaid, canfod abnormaleddau, diffygion yn y golwg a chlefydau llygad. Gallant hefyd nodi arwyddion o anaf a phroblemau gydag iechyd cyffredinol person fel diabetes.

## Beth mae optometryddion yn ei wneud?

Mae optometryddion yn cynnal asesiadau ar gleifion o bob oed, gan wirio eu presgripsiwn optegol (safon golwg) ac iechyd llygaid. Fel rhan o'u rôl gallant ddarparu cyngor clinigol, rhagnodi sbectol, neu lensys cyffwrdd a lle bo angen cyfeirio cleifion at weithwyr proffesiynol eraill. Disgwylir i optometryddion feddu ar lefel uchel o arbenigedd mewn anatomeg llygadol, a chlefydau a chynnal gwybodaeth gyfoes gydol oes o'r arferion cyfredol gorau.

## Ble mae optometryddion yn gweithio?

Mae optometryddion yn gweithio ar draws ystod o leoliadau:

- cymuned - practis optegol
- ysbytai
- ymweliadau cartref
- cynnal ymchwil
- addysg.

## Pa sgiliau sydd eu hangen arnaf i fod yn optometrydd da?

- sgiliau rhagorol o ran cyfathrebu a gwneud penderfyniadau
- sgiliau cyfathrebu a gwneud penderfyniadau rhagorol
- amyneddgar, cyfeillgar, ac yn mwynhau helpu pobl
- â diddordeb mewn datrys problemau
- sylw i fanylion a diddordeb mewn gwyddoniaeth.

## Sut mae dod yn optometrydd?

**Cam un:** i ddod yn optometrydd mae angen gradd mewn (BSC) Optometreg, sydd ar gael ym Mhrifysgol Caerdydd. Ceir gwybodaeth am raglenni gradd eraill ar wefan y Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC).

**Cam dau:** ar ôl i chi raddio mae'n ofynnol i chi ymgymryd â lleoliad cyn-gofrestru (12 mis fel arfer) sy'n cynnwys cyfnod o ymarfer dan oruchwyliaeth i brofi eich cymwyseddau. Ar ôl cwblhau'r lleoliad a'r asesiadau yn llwyddiannus, gallwch wedyn gofrestru fel optometrydd cymwys gyda'r GOC.

## Faint mae optometryddion yn ei ennill?

Yn dibynnu ar y cyflogwr a'r lleoliad, mae cyflog cychwynnol optometrydd newydd gymhwyso fel arfer tua £25,000. Gyda phrofiad gall hyn amrywio o £28,000 i fwy na £65,000.

Prospects (2022).

## Eisiau darganfod mwy? Ymwelwch â:

**Tregyrfa: https://careersville.heiw.wales/cy**
**Gyrfaoedd GIG Cymru: www.gyrfaoeddgigcymru.com**

GIG CYMRU NHS WALES
Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)